# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 17 Ionawr 2022

Amser: 13.30 - 16.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12582

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Rhys ab Owen AS<br>Alun Davies AS<br>Darren Millar AS (yn lle Peter Fox AS) |
| Tystion: | Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>James Gerard, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Samiwel Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Fox AS. Dirprwyodd Darren Millar AS ar ei ran.

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad mewn perthynas â gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfiawnder a gweithredu Comisiwn Thomas, ac ar faterion yn ymwneud â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)116 - Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 3) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 4.1 SL(6)121 - Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)126 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(6)123 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(6)115 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(6)114 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2022

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 5.1 SL(6)102 – Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarniadau a Chymorth) (Diwygio) (Cymru) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)118 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 23) 2021

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am ragor o eglurhad.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau.

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Pwyllgor Busnes. Nododd y Pwyllgor fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i'r cais i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau.

### 6.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Gwastraff ac Amaethyddiaeth (Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 6.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer pŵer deddfwriaethol dirprwyedig mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a'i fod yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am fwriad Llywodraeth Cymru i gydsynio i Orchymyn Nawdd Cymdeithasol (Yr Alban) 2018 (Cymorth i Bobl Anabl a Rhannu Gwybodaeth) (Darpariaeth ac Addasiadau Canlyniadol) 2022.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad – trafod y dystiolaeth.

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a sut y byddai'n llywio gwaith y Pwyllgor yn y dyfodol. Hefyd, cytunodd y Pwyllgor i ystyried llythyr drafft at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 yn ei gyfarfod nesaf.

## 9 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) Llywodraeth Cymru ar y Bil Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn 5pm.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol.

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Iechyd a Gofal.

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Iechyd a Gofal, a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws).

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Rhenti Masnachol (Coronafeirws), a chytunodd i drafod ei adroddiad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 13 Craffu ar hysbysiadau Llywodraeth Cymru: Cydsyniad i Offerynnau Statudol a wneir gan Lywodraeth y DU

Bu'r Pwyllgor yn trafod, a chytunodd ar ei ddull o graffu o ran bod Llywodraeth Cymru yn cydsynio i Lywodraeth y DU wneud Offerynnau Statudol. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad ynghylch ei dull o hysbysu'r Senedd am benderfyniadau cydsynio o'r fath.

## 14 Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

Nododd y Pwyllgor y llythyr a’r datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog mewn perthynas â’r adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

## 15 Yr adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau.

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ei drafodaeth ar yr adolygiad o amserlen a chylchoedd gwaith y pwyllgorau tan y cyfarfod dilynol.